

Betsi Cadwaladr UHB

Er gwaethaf rhai arwyddion o welliant yn ystod cyd-adolygiad AGIC / Swyddfa Archwilio Cymru, ceir heriau sylweddol o hyd i'r bwrdd iechyd o ran datblygu cynllun eglur ar gyfer sut y dylai gwasanaethau clinigol yng ngogledd Cymru gael eu hail-lunio, a chryfhau dysgu a gwella ansawdd.

Ysgrifennodd AGIC at y bwrdd iechyd yn mynegi pryderon am arweinyddiaeth ei wasanaeth iechyd meddwl, a'r effaith bosibl ar ofal cleifion, gan gyfeirio'n benodol at wasanaethau iechyd meddwl cymuned. Mae heriau hefyd yn parhau i'r bwrdd iechyd o ran sicrhau y gall ddarparu gofal o safon ddiogel ac effeithiol yn Uned Ablett. Roedd rhai o'r materion a ganfuwyd gennym yn Uned Ablett hefyd i'w gweld yn ystod ein hymwelriad ym mis Mehefin 2014, er i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd y byddai'r materion hyn yn cael eu datrys.

Arweiniodd tri o'r pedwar arolygiad ysbyty at orfod rhoi sylw i broblemau sicrwydd ar unwaith. Llwyddodd dau ysbyty i gymryd camau ar unwaith ar ddiwrnod yr arolygiad i roi sylw i'r materion hyn. Bu'n rhaid hefyd i ni ysgrifennu at y bwrdd iechyd i ofyn am ragor o sicrwydd ynghylch ei gynllun gwella yn ymwneud â'n harolygiadau Anabledau Dysgu o 2015/16. Roedd hyn oherwydd i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd cyfyngedig i ni yn ei ymateb cychwynol. Roedd ail ymateb y bwrdd iechyd yn fwy cynhwysfawr ac fe'i derbyniwyd gan AGIC.



Ysbytai

- | | |
|--|--|
| ✓ Roedd cleifion yn hapus gyda'r gofal a dderbyniwyd | ✗ Sawl problem yn ymwneud â recriwtio a chadw staff |
| ✓ Canfu un arolygiad arfer da o ran rheoli heintiau | ✗ Dylai amgylcheddau wardiau fod yn fwy ystyriol o ddementia, gan gynnwys mwy o ddefnydd o arwyddion lluniau |
| ✓ Roedd staff yn agored ac yn barod i sgwrsio ac yn helpu cleifion mewn ffordd a oedd yn dangos urddas | ✗ Nid oedd safonau rheoli meddyginiaethau yn dderbyniol ym Maelor Wrecsam, gyda meddyginiaeth yn cael ei storio mewn oergell nad oedd yn ddiogel |
| ✓ Gwelsom arfer da o ran defnyddio gwirfoddolwyr i dreulio amser yn sgwrsio â chleifion | ✗ Rheolaeth anghyson o gleifion a oedd yn disgwyl i gael eu derbyn o ambiwlans i'r ysbyty yn Wrecsam |
| ✓ Trefniadau da i gleifion a'u teuluoedd gynnig adborth ar eu profiadau | |

Iechyd Meddwl

- | | |
|---|--|
| ✓ Grwpiau staff cadarnhaol a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr | ✗ Pryderon sylweddol yn Uned Ablett yn ein harwain at y casgliad nad oedd amgylcheddau'r ddwy ward i ni ymweld â nhw yn addas i'r diben, ac yn anaddas ar gyfer darparu gofal diogel |
| ✓ Tystiolaeth dda o ofal unigoleddig sy'n canolbwyntio ar y claf | |
| ✓ Roedd yr holl ddogfennau cyfreithiol wedi eu cwblhau i'r safon ofynnol | ✗ Gwnaed argymhellion gennym ynghylch trefniadau rheoli meddyginiaethau ar draws sawl un o'n harolygiadau |
| ✓ Roedd ailwampio Bryn Hesketh wedi gwella natur ystyriol o ddementia yr ysbyty | ✗ Pryderon am y trefniadau cymorth meddygol ar gyfer Bryn Hesketh gan ei bod yn ward annibynnol |

Meddygfeydd Teulu

- | | |
|---|--|
| ✓ Rhoddodd cleifion adborth cadarnhaol ar eu gofal ac am staff meddygfeydd | ✗ Mae angen i feddygfeydd ddiweddarau eu gwefannau a'u taflenni gyda'r wybodaeth ddiweddaraf |
| ✓ Trefniadau i hybu gofal cleifion diogel ac effeithiol yn y rhan fwyaf o feddygfeydd | ✗ Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu cynlluniau datblygu meddygfa meddygfeydd a reolir |
| ✓ Roedd timau staff yn canolbwyntio ar y cleifion ac wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion | |
| ✓ Systemau cyfathrebu mewnol cadarn i sicrhau nad oedd unrhyw oediadau diangen cyn prosesu atgyfeiriadau, gohebiaeth a chanlyniadau profion | |

Deintyddol

- | | |
|---|--|
| ✓ Roedd cleifion yn cael eu trin gydag urddas a pharch | ✗ Roedd diffyg offer brys priodol mewn llawer o bractisau |
| ✓ Roedd cleifion yn eglur am gostau ac opsiynau triniaeth | ✗ Gallai practisau wella'r ffordd y maent yn rhoi adborth i gleifion yn dilyn awgrymiadau a gyflwynwyd |
| ✓ Roedd mwyafrif y practisau yn cael eu rhedeg yn dda gyda systemau effeithiol i gynorthwyo rheolaeth ac arweinyddiaeth y practis | ✗ Gwahanol broblemau o ran cadw cofnodion |